Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Rhagfyr 2010

Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)

1. Ar 6 Rhagfyr 2010, cafodd Mesur arfaethedig Llywodraeth, 'Mesur ynghylch Addysg (Cymru)', ei gyflwyno yn y Cynulliad.

2. Ar 30 Tachwedd 2010, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

3. Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 21 Ionawr 2011. Cytunodd y Pwyllgor hefyd mai'r terfyn amser ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 yw 4 Mawrth 2011.

4. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(ii), cytunwyd ar yr amserlen drwy bleidlais gymhwysol. Ar wahân i'r Cadeirydd, mae gan bob aelod o'r Pwyllgor un bleidlais ar gyfer pob aelod o'i grŵp gwleidyddol. Pleidleisiodd yr Aelodau a ganlyn o blaid: Jane Hutt (26) a Jocelyn Davies (14). Pleidleisiodd yr Aelodau a ganlyn yn erbyn: Nick Ramsay (13) a Peter Black (5).